# Canllawiau ar gyfer cwblhau llyfr gwaith y model rhagolygon ariannol Prif nodweddion model 2026 ar gyfer blynyddoedd academaidd 2025/26-2029/30

*Noder: Mae eitemau newydd a newidiadau i dempledi wedi'u hamlygu'n borffor. Nid yw newidiadau i ddyddiadau na mân newidiadau gramadegol wedi'u hamlygu.*

## Trosolwg o'r sail ar gyfer eu paratoi

- Caiff llyfr gwaith rhagolygon ariannol B1 ei anfon at gyfarwyddwyr cyllid a chysylltiadau data ym mhob prifysgol ar wahân, gyda data wedi'u poblogi ymlaen llaw ar gyfer colofnau gwirioneddol 2023/24 a 2024/25 a cholofnau rhagolygon 2025/26. Mae data gwirioneddol wedi cael ei boblogi gan ddefnyddio data a ddychwelwyd ar gofnod cyllid HESA, wedi'i addasu lle y bo'n berthnasol *mewn datganiadau sylfaenol yn unig* i gyd-fynd â'r datganiadau ariannol cyhoeddedig. Mae'r ffigyrau ategol yn Nhabl 5 yn defnyddio ffigyrau'r amcangyfrifon a ddarparwyd yn rhagolwg 2025 fel y sail ar gyfer dadansoddiad blwyddyn academaidd 2024/25. Mae blynyddoedd rhagolygon yn y dyfodol wedi cael eu gadael yn wag ar gyfer mewnbynnu.
- Mae'r holl ddalenni gwaith wedi cael eu diogelu rhag ysgrifennu ynddynt lle y bo'n bosibl. Mae celloedd wedi cael eu graddliwio hefyd i atal data rhag cael ei roi i mewn yn y meysydd anghywir ac i ddiogelu cyfrifiadau is-gyfansymiau a fformiwla; caniateir rhoi data i mewn yn y celloedd sydd heb eu graddliwio yn unig. Er mwyn rhoi cymorth pellach i'w hadnabod mae testun neu rifau sydd i'w rhoi i mewn â llaw yn las, ac mae'r rhai a gaiff eu cynhyrchu gan fformiwlâu'n ddu. Mae'r cyfleuster i fewnosod rhesi ychwanegol lle y bo'n ofynnol wedi'i ddynodi gan resi heb eu graddliwio.
- Mae'r llyfr gwaith yn cynnwys nifer o ddalenni gwaith:
  - KFI, sy'n dab cwbl fformwläig, gan ddefnyddio'r ffigyrau a fewnbynnwyd yn Nhablau 1_3 i gyfrifo dangosyddion ariannol allweddol a chymarebau a chanrannau dangosol eraill, er mwyn helpu i adolygu.
  - Benthyciadau ANOC, sydd hefyd yn dab cwbl fformwläig. Mae hwn yn cyfrifo ANOC (llif arian parod gweithredu net addasedig) a throthwyon benthyca dangosol. Hwn yw'r sail ar gyfer ein gweithgarwch blynyddol i fonitro benthyciadau, ac mae'n cynnwys lluosrif benthyca a throthwy ariannol cymeradwy pob sefydliad. Caiff unrhyw achosion o dorri'r rhain neu ddigwyddiadau hysbysadwy eu hamlygu trwy'r tab dilysiadau ar gyfer gweithredu priodol. Byddwn yn cyfleu deilliannau ein gweithgarwch monitro benthyciadau'n flynyddol trwy eithriad yn unig. Rydym yn cynnal adolygiad bob tair blynedd o'r holl lefelau benthyca cymeradwy. Bydd trothwyon benthyca diwygiedig yn cael eu cyfleu i bob sefydliad yn dilyn yr adolygiad hwn.
  - 'Tablau 1_3', sy'n cynnwys y prif ddatganiad o incwm cynhwysfawr, y fantolen a'r wybodaeth am lifoedd arian parod, ynghyd â dadansoddiadau atodol. Mae'r dull rhifo yn y ddalen waith hon wedi'i fwriadu i gyfateb fwy neu lai â chofnod cyllid HESA;
  - 'Tabl 5, sy'n darparu dadansoddiadau rhifiadol lle mae dadansoddi pellach yn ofynnol;

- ‘Tabl 6’, sy’n gofyn am fanylion yr holl ymrwymiadau o ran benthyciadau ac ymrwymiadau benthyca ariannol eraill, a godwyd ac nas codwyd, wedi’u diogelu a heb eu diogelu;
- ‘Tablau 1_3 ‘Senario anffafriol Medr’, sy'n tynnu data o ‘Tablau 1_3’ i fodelu senarios anffafriol sylfaenol ar gyfer 2025/26, gyda'r gallu i addasu pob llinell incwm yn ôl yr angen. Bydd y senarios anffafriol hyn yn llifo i mewn i ddangosyddion ariannol allweddol cryno. Er eu bod yn dal wedi'u hawtomeiddio yn bennaf, mae'r senarios anffafriol wedi cael eu hymestyn i ganiatáu mewnbynnu'r camau lliniaru costau sy'n debygol o fod yn ofynnol, ac mae cyfres bellach o ddangosyddion ariannol allweddol wedi cael ei hychwanegu.
- Mae Tabl 1_3 ‘Senario anffafriol y sefydliad ei hun’ yn cydnabod yr amrywiaeth yn y sector ac yn galluogi pob sefydliad i ystyried ei senario realistig ei hun. Mae'r senario anffafriol hon wedi cael ei symud i dab ar wahân a'i hymestyn i gwmpasu cyfnod llawn y rhagolygon, yn dilyn adborth gan y sector. Mae hyn yn cydnabod effaith cynnydd carfannau yn y tymor hwy a phwysigrwydd modelu llif drwodd yr effaith hon.
- ‘Dilysiadau’ – mae’r ddalen waith hon wedi’i diogelu rhag ysgrifennu ynddi heblaw am gyfleuster sylwadau i’w ddefnyddio mewn achosion eithriadol lle na ellir datrys gwallau dilysu. Bydd yn dynodi’r meysydd hynny lle mae’n ofynnol rhoi data pellach i mewn neu bydd yn amlygu ble y mae rhai gwiriadau dilysu rhifiadol wedi methu ac angen eu datrys cyn eu cyflwyno i Medr. Mae dilysiadau ychwanegol wedi cael eu cynnwys er mwyn adlewyrchu newidiadau yn y llyfr gwaith, lle bo hynny'n briodol.

**Canllawiau manwl ynghylch y dalenni gwaith**

Mae’r nodiadau canlynol yn darparu canllawiau mwy manwl ynghylch y nodweddion a’r gofynion rhoi data i mewn ar gyfer pob un o’r prif ddalenni gwaith yn y llyfr gwaith:-

## Tablau 1_3: Sylwadau cyffredinol

Mae’r ddalen waith hon yn cynnwys y prif dablau (datganiad o incwm cynhwysfawr, y fantolen gyfunol a’r datganiad cyfunol o lifoedd arian parod), a hefyd atodlenni mewnbynnu data ategol (sy’n dadansoddi meysydd incwm a gwariant).

## Tabl 1 – Datganiad cyfunol o incwm a gwariant cynhwysfawr

Gyda nifer fach iawn o eithriadau (costau ailstrwythuro staff sylfaenol, dibrisiant, treuliau eithriadol ac eitemau ‘islaw’r llinell’), poblogir y tabl hwn yn awtomatig o dablau ategol 1a i 1d. Mae llinell fewnbynnu ar gyfer treuliau eithriadol wedi’i chynnwys, yn bennaf er mwyn rhoi cymorth i adnabod costau pensiwn eithriadol, ond hefyd i adnabod eitemau eithriadol eraill a fyddai fel arall yn effeithio ar gyfrifiadau KFI.

Mae celloedd mewnbynnu wedi’u hamlygu’n wyn, gyda thestun glas. Mae’r holl gelloedd eraill yn rhai darllen yn unig.

Sylwer ym mhennawd llinell 16 y gofyniad i ddadansoddi’r incwm cynhwysfawr fel y’i cynrychiolir gan yr incwm gwaddol a’r incwm cynhwysfawr cyfyngedig ac anghyfyngedig am y flwyddyn; hefyd ym mhennawd llinell 17 y dadansoddiad o’r gwarged a’r incwm

cynhwysfawr rhwng buddiant nad yw'n un/buddiannau nad ydynt yn rhai llywodraethol a'r brifysgol (lle y bo'n berthnasol). Sylwer y bydd y ffigwr 'prifysgol' yn cael ei ddiddwytho'n awtomatig o'r hyn a roddir i mewn ar y llinellau 'buddiant nad yw'n un llywodraethol'.

**Tabl 1a – Dadansoddiad o incwm**

Y tabl hwn sy'n bwydo'r llinellau incwm yn Nhabl 1. Mae'r dadansoddiad wedi'i deilwra i ddarparu gwybodaeth friffio y gofynnir i ni amdani.

Mae *Incwm ffioedd dysgu* (Tabl 1a_1) yn rhannu'r incwm ffioedd sy'n gysylltiedig â myfyrwyr cartref a thramor ar bob lefel astudio.

Mae rhagolygon niferoedd myfyrwyr wedi'u nodi yn **C ac E**. Dylai'r cyfansymiau incwm ffioedd fod yn gyson â'r niferoedd myfyrwyr a ddychwelir, ac fe geir dilysiadau sy'n adlewyrchu hyn. Nid oes cysylltedd uniongyrchol o ran mewnbwn rhwng y rhagolygon ariannol yn **B1** a'r rhagolygon niferoedd myfyrwyr a ddychwelir yn **C ac E**. Fodd bynnag, rydym yn cynnal ymarferion i gysoni'r rhain. Dylai cyfansymiau incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr cartref gyd-fynd â phennawd Tabl 1a_1a, fel y'i dadansoddwyd ar gyfer pob lefel astudio a dylai'r cyfanswm incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o dramor gyd-fynd â Thabl 1a_1d. Cyfeirier at ganllawiau ar wahân ynghylch mewnbynnu niferoedd myfyrwyr yn **Atodiad D.**

*Incwm cyrff cyllido* (Tabl 1a_2) – Sylwer mai dim ond arian sy'n dderbyniadwy gan Medr ddylai gael ei gynnwys yn Nhabl 1a_2 Grantiau cyrff cyllido. Dylai'r rhain gael eu dadansoddi rhwng rhai cylchol, anghylchol a chyfalaf fel a nodir. Dylai'r holl arian sy'n dderbyniadwy gan Medr gael ei gynnwys yn y pennawd hwn, gan gynnwys arian a geir trwy Medr y dylid ei gynnwys dan gyllid nad yw'n gyllid fformiwla. Dylai cyllid mewn perthynas â darpariaeth addysg bellach gael ei ddyrannu i grantiau cylchol LIC / AB (Tabl 1a_2i).

Mae *Incwm ymchwil* (Tabl 1a_3) wedi cael ei ddadansoddi i ddarparu rhyw ddangosydd ar gyfer ffynhonnell ddaearyddol yn ogystal â ffynhonnell sector.

*Incwm arall* (Tabl 1a_4). Sylwer hefyd fod yr 'incwm gwasanaethau eraill a roddwyd' (Tabl 1a_4a) wedi cael ei rannu'n nifer o linellau i ddadansoddi'r incwm ymhellach o safbwynt daearyddol. Lle mae incwm gweithredu arall ac incwm gwasanaethau eraill a roddwyd yn cynnwys balansau perthnasol, byddem yn disgwyl peth eglurhad o gyfansoddiad y rhain o fewn y sylwebaeth naratif i oleuo ein dealltwriaeth ni am ffrydiau incwm.

**Tabl 1b – Dadansoddiad o gostau staff**

Mae'r dadansoddiad o gostau staff eleni eto'n cynnwys dadansoddiad yn ôl math o gost (cyflogau, Yswiriant Gwladol, pensiynau, ac ati) yn ogystal ag yn ôl gweithgaredd. Rydym hefyd yn gofyn am niferoedd cyfartalog staff CagALl, wedi'u rhannu yn ôl swyddi academaidd, gweinyddol, technegol ac eraill. Dadansoddir costau pensiwn rhwng cost arian parod ac addasiadau technegol (Tabl 1b_1d). Dylai addasiadau technegol gynnwys yr holl gynlluniau buddion diffiniedig. Mae hyn yn gyson â gweddill y DU (a chofnod cyllid HESA) a bydd yn ein cynorthwyo i amcangyfrif effaith newidiadau mewn cyfraniadau ar arian parod lle y bo'n ofynnol.

### Tabl 1c – Dadansoddiad o dreuliau gweithredu eraill

Rydym yn gofyn am ddadansoddiad o wariant arall heblaw cyflogau sy'n debyg i'r dadansoddiad o gostau staff yn ôl y math o gost.

### Tabl 1d – Dadansoddiad o log a chostau cyllid eraill

Rydym yn gofyn am ddadansoddiad o log a chostau cyllid eraill. Mae hyn yn ein galluogi i adnabod y rhaniad rhwng cost wirioneddol ac addasiadau cyfrifyddu, megis taliadau pensiwn net.

## Tabl 2 – Mantolen gyfunol

Mae angen rhoi pob llinell i mewn ar y tabl hwn – nid oes porthiannau wedi'u hawtomeiddio. Sylwer bod rhaid rhoi ewyllys da negatif i mewn fel swm negatif. Sylwer hefyd y dylai'r ymrwymiadau ariannol a ddatgelir ar y fantolen gyd-fynd â'r hyn a ddatgelir yn Nhabl 6.

Yn unol â gweddill y DU rydym wedi ehangu datgeliad i adnabod incwm gohiriedig a chronedig ar wahân. Wrth i fodelau addysgu ehangu y tu allan i'r flwyddyn academaidd draddodiadol, daw hon i fod yn eitem fwy perthnasol, sy'n wahanol o ran ei natur i groniadau a rhagdaliadau cyffredinol.

## Tabl 3 – Datganiad cyfunol o lif arian parod

Rhoddir mwy o amlygrwydd i'r tabl hwn yn ein hasesiad o gynaliadwyedd ariannol dan yr amgylchedd adrodd GAAP newydd. Sicrhewch fod y symudiadau a'r symiau arian parod a symiau cyfwerth ag arian parod yn gyson â'r fantolen. I'r perwyl hwn mae'r cysoniadau ychwanegol a gynhwysir yn Nhabl 5 wedi cael eu cadw.

Mae Tabl 3a yn adrodd ar y sefyllfa arian parod chwarterol a ragwelir bob blwyddyn a swm ac amseriad y sefyllfa arian parod isaf yn y flwyddyn honno.

Islaw'r datganiad llif arian parod mae celloedd mewnbynnu data er mwyn cofnodi arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddelir ar ddiwedd pob chwarter, y sefyllfa isaf o ran arian parod yn y flwyddyn academaidd, a mis y balans isaf hwnnw.

## Tabl 5: Data ategol

Yn y tabl hwn rydym yn gofyn am ddadansoddiad rhifiadol pellach o rai penawdau ar Dablau 1_3. Mae hefyd yn cynnwys nifer o gysoniadau ychwanegol er mwyn rhoi cymorth i ddilysu, yn enwedig y datganiad llifoedd arian parod.

Darparwyd tablau gyda chwymplenni i roi cymorth i ddilysu lle nad yw'r pennawd yn berthnasol i'ch sefydliad chi ac i lywio proses gyson ar gyfer adrodd ar fanylion a threfn categoreiddio.

Gellir mewnosod llinellau ychwanegol ym mhob un o'r tablau heb ddatgloi'r tab yn ei gyfanrwydd, fel a ddynodir gan gelloedd heb eu graddliwio.

Mae **Tabl 5_1a** yn cydnabod, er ei bod bellach yn ofynnol adrodd ar TNE o fewn incwm ffioedd dysgu (Tablau1_3_1a), nad yw hyn yn cael ei roi ar waith yn gyson. Gan bod TNE yn faes twf, rydym yn ei gwneud yn ofynnol darparu ffigyrau cyflawn at ddibenion monitro. Rydym hefyd yn casglu meintioliad lefel uchel ar gyfer incwm partneriaeth at ddibenion monitro.

Mae **Tabl 5_1b** yn ofynnol er mwyn ein galluogi i gynnal profion rhesymoldeb ar gyllid Medr, a nodi unrhyw gyllid a allai gael ei gynnwys gan gyrff cyllido neu gyrff llywodraethol eraill.

Mae **Tabl 5_1c** yn ofynnol i'n cynorthwyo i adnabod a deall grantiau mawr lle gall meini prawf cydnabod lurgunio perfformiad sefydliadol sylfaenol. Gan bod y prif lurguniadau'n cael eu hachosi gan gyllid cyfalaf, dim ond mewn perthynas â grantiau cyfalaf mwy yr ydym yn gofyn am y manylion hyn, oni bai bod grantiau eraill yn ddigon mawr i'w gwneud yn ofynnol eu datgelu i hybu dealltwriaeth am symudiadau o fewn y datganiadau ariannol. Gellir cynnwys grantiau cyfalaf bychain yn eu crynswth. Mae'n fwy tebygol mai felly y bydd hi lle defnyddir y mesur perfformiad.

Mae **Tabl 5_1d** yn ofynnol er mwyn nodi eitemau o 'incwm cynhwysfawr arall'.

Mae **Tabl 5_1e** yn gofyn am feintioliad lefel uchel ar gyfer cyrsiau byrion megis sylfaen a CertHE sydd wedi'u cynnwys yn y pennawd FTUG sy'n 3 blynedd yn draddodiadol lle nad yw'r rhain yn rhan annatod o gwrs hwy. Y rheswm yw er mwyn cydnabod, er y gallant arwain at gamu ymlaen, nad yw'r cyrsiau hyn ynddynt eu hunain yn ffrydiau incwm 3 blynedd. Ategir hyn gan naratif lefel uchel yn Atodiad B2.

Mae **Tabl 5_2a** yn gofyn am wybodaeth ynghylch ymrwymiadau blynyddol penodol.

Mae **Tabl 5_2b** yn ofynnol er mwyn nodi 'gwariant sylweddol / perthnasol' a ddatgelir ar wahân ar wyneb yr incwm a gwariant.

Mae **Tabl 5_3** yn darparu goruchwyliaeth lefel uchel ar is-gwmnïau, mentrau ar y cyd a busnesau cysylltiol nad ydynt o bosibl yn weladwy o fewn y ffigyrau grŵp. Dim ond pan fydd mentrau ar y cyd a busnesau cysylltiol yn gwneud colled y bydd angen eu manylion.

Mae **Tabl 5_4a** yn ofynnol er mwyn nodi addasiadau 'eitemau eraill nad ydynt yn arian parod'.

Mae **Tabl 5_4b** yn ofynnol ar gyfer manylion grantiau cyfalaf a ddaw i law yn y datganiad llif arian parod.

Mae **Tabl 5_4ci** yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r dadansoddiad o asedau a brynwyd yn y flwyddyn i mewn (fel yn y datganiad llifoedd arian parod, tabl 3+5g) a hwnnw wedi'i rannu yn ôl y math o ased (tir ac adeiladau, offer) yn ogystal â'r ffynonellau cyllid ar gyfer pob blwyddyn o wariant. Mae hyn yn cynnwys pryniannau cyfalaf diriaethol ac anniriaethol. Mae angen i'r modd y caiff ffynhonnell cyllid ei chategoreiddio ystyried amseriad yr arian. Er enghraifft gellir cyllido ased cyfalaf â benthyciad a gymerir, neu ased a werthwyd mewn blwyddyn flaenorol. Dylai'r rhain ddal i gael eu dynodi fel ffynhonnell y cyllid. Gellir cynnwys eitemau llai yn eu crynswth.

Er y cydnabyddir ei fod yn eang ei gwmpas, mae **Tabl 5_4cii** yn ceisio cael rhyw lefel o ddealltwriaeth am brosiectau tymor hwy sylweddol.

Mae **Tabl 5_4d** yn ofynnol er mwyn nodi ‘gweithgareddau buddsoddi eraill’.

Mae **Tabl 5_4e** yn ofynnol er mwyn nodi ‘gweithgareddau cyllido eraill’.

Mae **Tabl 5_5** yn cydnabod bod cyllid a ddyrennir wedi'i gynnwys o fewn balansau arian parod sydd ond yn gallu cael eu defnyddio er mwyn helpu i ddiwallu anghenion cyfalaf gweithio mwy cyffredinol yn y tymor byr iawn. Pan fydd y rhain yn berthnasol, bydd yn bwysig eu nodi ar wahân er mwyn i Medr ddeall hylifedd sylfaenol parhaus. Mae hefyd yn ceisio meintioli gofyniad arian parod targed mewnol sefydliadau i reoli eu proffiliau incwm amrywiol.

Mae **Tabl 5_6 a-c** yn darparu crynodeb o dybiaethau allweddol gan ei gwneud yn bosibl deall yn well beth yw’r cymharedd rhwng rhagolygon gwahanol SAUau.

Mae **Tabl 5_6d** yn casglu crynodeb o ddarpariaethau a hapddigwyddiadau, gan gynnwys cynilion a ddelir yn ganolog, sydd wedi’u cynnwys yn y rhagolygon. Ategir hyn gan naratif yn Atodiad B2.

Mae **Tabl 5_7** yn dilysu cysoniad y datganiad llifoedd arian parod

## Tabl 1_3: ‘Senario anffafriol Medr’

Er mwyn archwilio effaith bosibl senarios anffafriol rydym yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gynhyrchu modelau sy’n ystyried senarios anffafriol ar gyfer 2025/26. Rydym yn cydnabod yr amrywiaeth yn y sector ac yn llwyr ddisgwyl y bydd sefydliadau unigol wedi gwneud eu gwaith modelu eu hunain ar risgiau o ran senarios anffafriol a fydd yn cynnwys gwahanol dybiaethau.

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol modelu mewn ffordd sy’n gyson dros y sector er mwyn goleuo ein hasesiad o ofynion cyllido, ac i ddarparu senarios sail sy’n ateb gofynion ein Cyngor bod sefydliadau a’u cyrff llywodraethu’n dangos modelu o ran senarios anffafriol ac ystyriaeth lawn iddynt. Rydym yn disgwyl i fanylion ac asesiadau o effaith gwaith modelu pellach a gyflawnwyd gan sefydliadau unigol gael eu cynnwys yn y brif sylwebaeth. Felly nid ydym yn disgwyl i unrhyw dwf gael ei ddangos yn y model hwn.

Rydym yn cydnabod mai dim ond ar lefel uchel y bydd gan fodelau safonedig werth mewn sector amrywiol, ac felly rydym wedi cadw natur awtomataidd y tab hwn cyn belled ag y bo modd, ac wedi cadw'r gwaith modelu am flwyddyn yn unig. Mae’r tabl hwn yn tynnu incwm a gwariant o Dabl 1_3 i gynhyrchu modelau sail ar gyfer 2026/27.

Yn dilyn adborth gan y sector, mae'r nodweddion ychwanegol canlynol wedi cael eu hychwanegu at senarios Medr:

- Mae 2g yn caniatáu i sefydliadau addasu gwariant er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn costau y bydd y rhagdybiaethau incwm anffafriol yn cael effaith *uniongyrchol* arnynt. Bydd hyn yn cynnwys costau megis ffioedd asiantiaid is, neu fwrsariaethau a gostyngiadau ffioedd pan fydd incwm dysgu rhyngwladol yn is na'r senario sylfaenol, ac effaith uniongyrchol ar gostau preswylfeydd. Ni ddylid cynnwys camau lliniaru yn y rhan hon.

- Erbyn hyn, gall darparwyr gynnwys arbedion costau, costau rhoi ar waith a'r arian parod y byddai angen ei gadw pe bai'r senarios anffafriol hyn yn dod yn wir.
- Mae metrigau ariannol allweddol, ar gyfer y senario anffafriol sylfaenol ac ar gyfer y senario anffafriol wedi'i lliniaru, wedi cael eu hehangu. Mae'r rhain hefyd wedi cael eu cynnwys ar y tab ‘Gwybodaeth Ariannol Allweddol’ ar ei newydd wedd.

Mae rhagdybiaethau'r senarios fel a ganlyn:

***Model 1 – dim twf***

- Mae incwm 2026/27 yn cael ei ddal ar lefelau 2025/26. Lle y bydd gwaith modelu sylfaenol 2026/27 yn is na 2025/26, defnyddir 2026/27.

***Model 2 – senarios anffafriol safonol***

Mae’r model hwn yn cymhwyso’r senarios anffafriol safonol canlynol:

- Mae incwm dysgu FTUG ar gyfer myfyrwyr o’r DU yn ostyngiad o 5% o’i gymharu ag incwm ffioedd myfyrwyr amcangyfrifedig 2025/26; Brasamcan sy'n didynnu 5% o draean o incwm 2025/26 yw hwn.
- O ran incwm dysgu arall o'r DU, gan gynnwys ffioedd a grantiau cymorth gan AaGIC ac o ffynonellau eraill, yr incwm isaf o ffioedd myfyrwyr a archwiliwyd ar gyfer 2024/25, a amcangyfrifwyd ar gyfer 2025/26 ac a ragwelwyd ar gyfer 2026/27 yw'r ffigur hwn;
- Mae incwm ffioedd dysgu FTPG ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol 20% yn is nag incwm ffioedd myfyrwyr amcangyfrifedig 2025/26;
- O ran incwm dysgu rhyngwladol arall, yr incwm isaf o ffioedd myfyrwyr a archwiliwyd ar gyfer 2024/25, a amcangyfrifwyd ar gyfer 2025/26 ac a ragwelwyd ar gyfer 2026/27 yw'r ffigur hwn.

***Y ddau fodel***

Mae’r holl ffigyrau sail, heblaw am incwm ffioedd dysgu model 3, yn cael eu hechdynnu’n awtomatig o Dabl 1_3. Ceir cyfleuster i ddiwygio pob ffrwd incwm.

Dylai diwygiadau fod yn gyson â’r canlynol:

- Addasiadau ffioedd dysgu ar gyfer newidiadau i gyrsiau, gan gynnwys treiglo carfannau ar gyrsiau newydd a sefydlwyd yn 2025/26 neu’n gynharach. Ni ddylid adlewyrchu unrhyw dwf ym meintiau carfannau yn yr addasiad hwn. Ni ddylid cynnwys cyrsiau sy’n dechrau neu y bwriedir iddynt ddechrau ar ôl 2025/26. Gellir cydnabod carfannau sy’n camu ymlaen ar gyrsiau a sefydlwyd yn 2024/25 neu 2025/26, ond ni ddylid dybio twf ym maint y carfannau.
- Gellir gwneud addasiad ar gyfer codiadau i gap ffioedd myfyrwyr presennol lle y bo’n briodol. Dylai’r rhain fod yn seiliedig ar fras amcan o niferoedd myfyrwyr y flwyddyn a dynnwyd drwodd gan bob model anffafriol ac ni ddylent gynnwys unrhyw dybiaethau ynghylch twf.
- Gellir addasu ffioedd rhyngwladol ar gyfer codiadau mewn ffioedd a gyhoeddwyd. Dylai’r rhain fod yn seiliedig ar fras amcan o niferoedd myfyrwyr y flwyddyn a

dynnwyd drwodd gan bob model anffafriol ac ni ddylent gynnwys unrhyw dybiaethau ynghylch twf.

- Tybir bod ffrydiau incwm eraill yn aros yn gyfwerth â’r prif ragolwg. Fodd bynnag, ceir cyfleuster i gynnwys addasiadau priodol i ffrydiau incwm eraill y byddai senario o’r fath yn effeithio arnynt, er enghraifft fel incwm sy’n seiliedig ar lety, cyfleusterau ac incwm arall sy’n seiliedig ar niferoedd i’w cynnwys yn seiliedig ar y gostyngiadau yn nifer y myfyrwyr;

Gellir mewnbynnu llinellau ychwanegol yn y tablau senarios lle dynodir fel celloedd heb eu graddliwio.

Tybir bod gwariant ym mhob model yn ddigyfnewid o’r prif ragolwg.

Lle pob sefydliad unigol fydd penderfynu p'un a gaiff y camau lliniaru a fyddai'n ofynnol yn seiliedig ar waith modelu'r sefydliad o addasiadau incwm ar y graddfeydd hyn eu cynnwys yn y senario hon ai peidio. Er mwyn cynnig hyblygrwydd ar gyfer hyn, bydd tabl memorandwm ar ddiwedd y tab yn casglu lefel y camau lliniaru costau a fydd yn ofynnol ar gyfer y senario hon, a datganiad ynghylch p'un a yw'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y model ai peidio. Dim ond effeithiau ar incwm a gwariant a gofnodir yn y memorandwm hwn. Nid yw'n cynnwys gweithgareddau cadw arian parod megis gohirio gwariant cyfalaf, gan y bydd hynny wedi'i nodi yn symudiadau'r datganiad llif arian parod.

Dylai'r sylwebaeth naratif gynnwys yr amserlen a fydd yn ofynnol ar gyfer pob un o'r camau lliniaru, gan gynnwys erbyn pa ddyddiadau y byddai angen i'r penderfyniadau ar gyfer pob cam lliniaru gael eu gwneud.

Nid oes unrhyw ddata ategol yn Nhabl 5 na data CagALI myfyrwyr (Atodiad C ac E) yn ofynnol ar gyfer y senarios hyn.

## Tabl 1_3: ‘Senario anffafriol y sefydliad ei hun’

Rydym yn cydnabod bod y sector yng Nghymru yn amrywiol ac, er bod llawer o'r heriau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd yn berthnasol i'r DU gyfan, y byddant yn effeithio ar sefydliadau unigol mewn ffyrdd gwahanol.

Yn dilyn adborth gan y sector, mae'r senario anffafriol hon wedi cael ei hehangu i ganiatáu adrodd ar effaith pum mlynedd lawn gwaith modelu'r sefydliad ei hun ar y senario incwm realistig waethaf fel y'i cyflwynir i'r weithrediaeth a'r corff llywodraethu.

Celloedd mewnbynnu yw'r blynyddoedd anffafriol ar y tab hwn.

Mae'r tab yn cynnwys cyfrif incwm a gwariant, mantolen a datganiad llif arian parod, yn unol â thablau 1_3. Lle roedd modd, mae'r rhain wedi cael eu crynhoi ac nid oedd angen nodiadau llawn.

I hwyluso gwaith adolygu, mae colofnau memorandwm wedi'u poblogi'n awtomatig wedi cael eu cynnwys sy'n cymharu'r rhagolwg a'r senario anffafriol ar gyfer pob blwyddyn yn y rhagolygon.

Nid oes angen data Tabl 5 atebol na data FTE myfyrwyr (Atodiad C ac E) ar gyfer y senario hon.

Dylai manylion y prif ragdybiaethau a'r camau lliniaru sydd wedi'u cynnwys yn y senario anffafriol gael eu cynnwys yn y sylwebaeth naratif, ynghyd â'r amserlen ofynnol ar gyfer pob un o'r prif gamau lliniaru sy'n ofynnol, gan gynnwys erbyn pa ddyddiadau y byddai angen i'r penderfyniadau ar gyfer pob cam lliniaru gael eu gwneud.

## Tabl 6: Balans yr ymrwymiadau sy'n dal yn weddill ac ymrwymiadau ariannol y cytunwyd arnynt sydd heb eu tynnu i lawr eto ar ddyddiad y fantolen

Mae'r tabl hwn wedi'i fwriadu i gasglu gwybodaeth mewn ffordd fwy cynhwysfawr o lawer am sefyllfa gyfredol benthyciadau ac ymrwymiadau ariannol ar gyfer eich sefydliad. Caiff gwybodaeth a ddychwelir ar Dabl 6 ei defnyddio yn ein prosesau monitro blynyddol ar gyfer benthyca sefydliadol hefyd, fel y'i cyfrifwyd ar y tab benthyciadau ANOC. Sylwer bod y ddalen waith 'dilysiadau' yn cynnwys nifer o wiriadau dilysu i sicrhau, *ymhlith pethau eraill*, bod yr holl fenthyciadau yn Nhabl 6 yn cyd-fynd â'r fantolen a ragwelir, ac y rhoddir cyfrif am bob benthyciad o ran cyfansymiau yr ymrwymwyd iddynt, symiau a dynnwyd i lawr a symiau heb eu codi.

Dylai'r tabl gynnwys manylion yr holl ymrwymiadau ariannol perthnasol fel y'u nodir gan Atodiad B Cod Rheoli Ariannol CCAUC (HEFCW W17/16HE). O 1 Awst 2026 ymlaen, bydd fframwaith rheoleiddio Medr yn disodli hyn. Mae'r gofynion cyfatebol i'w gweld yn y manylion atodol ar gyfer yr amod cynaliadwyedd ariannol.

## Dalen waith dilysiadau

Mae'r ddalen hon yn darparu set gynhwysfawr o wiriadau dilysu.

Mae'r rhain wedi'u trefnu i'w prosesu'n systematig trwy'r tablau. Mae'r dilysiadau wedi'u bwriadu i gadarnhau bod yr holl dablau wedi cael eu cwblhau, bod is-ddadansoddiad wedi cael ei gwblhau lle y bo'n ofynnol a bod y data ariannol yn gyson ac yn cyd-fynd â'i gilydd rhwng yr amryw dablau a datganiadau.

O ystyried natur y dilysiadau sydd wedi'u cynnwys, nid ydym yn dychmygu llawer o senarios lle na ellir datrys y rhain, a rhaid gwneud pob ymdrech i roi'r data i mewn yn gywir, ond os na ellir datrys mater gellir hysbysu yn ei gylch yn y golofn naratif ar y dde ar bwys pob dilysiad.

Yr eithriad i hyn yw'r dilysiadau monitro benthyciadau, a all amlygu camau gweithredu sy'n ofynnol gan y corff llywodraethu.

## Dalen waith KFI

Mae’r tab hwn yn llwyr seiliedig ar fformiwlâu. Dylid ei adolygu fel rhan o gwblhau’r naratif er mwyn sicrhau bod unrhyw amrywiannau ac anghysonderau’n cael eu hegluro’n foddhaol.

Yn dilyn gwaith a wnaed gyda'r sector ar gyfrifo dangosyddion ariannol allweddol, mae'r tabl hwn wedi cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r metrigau wedi'u diweddaru.

Mae'r tabl wedi cael ei ad-drefnu i gynnwys dangosyddion ariannol allweddol ar gyfer y prif ragolygon, senarios anffafriol y sefydliadau eu hunain a senarios anffafriol Medr (ar gyfer 2026/27 yn unig).

Mae’r tabl wedi cael ei rannu i ddarparu ein prif ddangosyddion monitro a dangosyddion eraill. Mae’r prif ddangosyddion yn cynnwys cymhariaeth, yn seiliedig yn rhannol ar gyfartaleddau sector y DU, i ddynodi mesur eang o berfformiad ar gyfer cynaliadwyedd tymor canolig. Dangosyddion cyfartalog bras yw'r rhain, ac nid ydynt yn cynrychioli ‘targedau Medr’ gan ein bod yn cydnabod bod gofynion sefydliadau unigol yn amrywio'n sylweddol.

Daw cyfartaleddau’r sector o ddata agored HESA ar gyfer sefydliadau y mae diwedd eu blwyddyn ar 31 Gorffennaf. Echdyniad ar adeg mewn amser yn unig yw hwn.

## Dalen waith benthyciadau ANOC

Mae’r tab hwn yn llwyr seiliedig ar fformiwlâu.

Sylwer bod trothwyon cymeradwy pob sefydliad wedi cael eu cynnwys yn y templedi wedi’u poblogi sy’n sail i’n hadolygiad monitro benthyciadau blynyddol, gyda chyfathrebu dim ond trwy eithriad.

Felly dylai’r tab hwn gael ei adolygu ar gyfer dangosyddion digwyddiadau hysbysadwy neu adroddadwy. Bydd unrhyw ddigwyddiadau o’r fath wedi’u hamlygu ar y tab dilysiadau ynghyd â chamau gweithredu gofynnol y corff llywodraethu. Y rheswm dros hyn yw er mwyn hwyluso cydymffurfio â’r gofyniad yng Nghod Rheoli Ariannol CCAUC i gyrff llywodraethu hysbysu Medr yn ffurfiol lle aethpwyd y tu hwnt i’r lluosrif cymeradwy.

O 1 Awst 2026 ymlaen, bydd fframwaith rheoleiddio Medr yn disodli'r Cod Rheoli Ariannol. Mae'r gofynion cyfatebol i'w gweld yn y manylion atodol ar gyfer yr amod cynaliadwyedd ariannol.

Byddwn yn parhau i gynnal adolygiadau bob tair blynedd o'r holl lefelau benthyca cymeradwy ac, yn dilyn hynny, bydd yr holl sefydliadau'n cael gwybod beth yw'r trothwyon benthyca cymeradwy sydd wedi'u cadarnhau, p'un a yw eu trothwyon wedi cael eu diweddaru ai peidio

Hoffem bwysleisio ymhellach y bydd angen i Medr gynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cymeradwyo benthyciadau newydd ar gyfer yr holl fenthyciadau newydd gan sefydliadau y bydd asesiadau Medr wedi dod i'r casgliad eu bod yn sefydliadau risg uchel, ac ar gyfer unrhyw fenthyciadau newydd lle yr aethpwyd y tu hwnt i drothwy ariannol A / NEU luosrif cymeradwy sefydliad.